



Cangen Llywodraethiant, Trefniadaeth a Derbyniadau i Ysgolion

SGOA@llyw.cymru

13/02/2025

Annwyl gyfaill,

Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion

Diolch am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad uchod.

Rydym yn croesawu'r cynigion i ddiwygio'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (y Cod), ac yn benodol yr ymgais i sicrhau bod y Cod yn adlewyrchu gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Gan bod y Cod wedi'i lunio cyn i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ddod i rym, nid yw'r Cod presennol yn croesgyfeirio at berthnasedd y safonau yng nghyd-destun datblygu cynigion ad-drefnu addysg.

Mae hefyd rhywfaint o anghysondeb yng ngofynion y Cod presennol a gofynion y safonau llunio polisi o safbwynt asesu effaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn arwain at gryn ddriswch i awdurdodau lleol wrth iddynt asesu effaith cynigion ad-drefnu addysg ar y Gymraeg. Mae manteision amlwg, felly, o fod yn amlygu perthnasedd gofynion safonau'r Gymraeg yng nghyd-destun trefniadaeth ysgolion, a drwy hynny geisio annog sefydliadau i ystyried eu dyletswyddau dan y Cod ochr yn ochr â'u dyletswyddau dan y safonau llunio polisi.

Mae'r Cod diwygiedig yn welliant sylweddol ar y Cod presennol, ac yn mynd i'r afael â'r mwyafrif helaeth o'r anawsterau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Isod rydym yn darparu sylwadau ar rai o'r newidiadau yn y drafft newydd, ac yn awgrymu rhai materion y gellid eu hystyried ymhellach.

Comisiynydd y Gymraeg

Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221

post@comisiynyddygyymraeg.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner

Unit 2, Block C
Victoria Dock
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221

post@comisiynyddygyymraeg.cymru

Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Adran newydd ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 – tudalen 6

Mae'r adran newydd hon yn datgan yn glir berthnasedd y safonau llunio polisi yng nghydestun cynigion ad-drefnu addysg ac mae'n ddefnyddiol iawn bod yr adran hon wedi'i chynnwys ar gychwyn y Cod. Mae gennym ddau awgrym o ran sut y gellid cryfhau'r adran hon:

- Er bod ymgais yma i gysoni gofynion y Cod a gofynion safonau llunio polisi, rydym yn derbyn nad rôl y Cod yw egluro hyd a lled gofynion y safonau llunio polisi. Hynny yw, bydd dal angen i'r rhai sy'n gwneud cynigion sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg. Credwn y byddai'n fuddiol, felly, i gynnwys brawddeg ychwanegol sy'n annog y rhai sy'n cyflwyno cynigion i ystyried gofynion y ddwy gyfundrefn statudol ochr yn ochr â'i gilydd. I ategu'r pwynt hwn, byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at ddogfennau cyngor ac adnoddau'r Comisiynydd sy'n darparu arweiniad i gyrrff cyhoeddus ynghylch sut y dylid mynd ati i roi ystyriaeth gydwobodol i effaith penderfyniadau ar y Gymraeg. Mae gan y Comisiynydd [dudalen gwe benodol](#) sy'n cynnwys amryw o adnoddau, gan gynnwys Cod Ymarfer, canllaw a seminarau ar ddogfennau ymgynghori ac asesu effaith. Gellid gwneud hyn yn yr adran hon a/neu mewn adrannau eraill o'r Cod.
- Er mwyn sicrhau cysondeb, credwn y byddai'n ddefnyddiol i baragraff olaf yr adran hon (sydd yn crynhoi goblygiadau'r newidiadau) nodi hefyd bod dau ofyniad o fewn y safonau llunio polisi sy'n ymwneud â dogfen ymgynghori, sef ystyried yr effaith ar y Gymraeg a cheisio barn ar yr effaith ar y Gymraeg.

Adran newydd ar Effaith ar y Gymraeg – tudalen 12, paragraffau 1.10 a 1.11

Rydym yn croesawu'r adran newydd hon ar asesu effaith ar y Gymraeg. Fel y nodwn uchod, er mwyn sicrhau cysondeb, dylid pwysleisio yma yr angen i'r ddogfen ymgynghori ystyried effaith ar y Gymraeg yn ogystal â cheisio barn ar yr effaith ar y Gymraeg. Yn ogystal â chynnwys troednodyn ar gyfer Atodlen 2 i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, byddai cyfeirio at gyngor ac arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ar y safonau llunio polisi o bosib yn fwy defnyddiol i'r rhai sy'n datblygu cynigion.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion – tudalen 15, paragraff 1.20

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y paragraff hwn wedi'i gryfhau yn sylweddol o safbwynt y Gymraeg. Er hyn, nid ydym o'r farn mai dim ond yn achos darpariaeth cyfrwng Cymraeg y dylid ystyried sut y bydd y cynnig yn effeithio ar dargedau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Gwyddom am sawl enghraifft lle mae agor ysgolion newydd cyfrwng Saesneg, neu gynyddu capasiti ysgolion cyfrwng Saesneg, yn cael effaith uniongyrchol ac andwyol ar dwf a llwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg. Dylid annog y rhai sy'n gwneud cynigion i ystyried hyn. Rydym felly yn argymhell newid yr ail frawddeg dan y pwynt bwled cyntaf i'w gwneud yn ofynnol i gynigwyr ystyried sut y bydd unrhyw gynnig i agor ysgol newydd, cynyddu capasiti neu



ehangu ystod oedran, yn gwella'r gwaith o gynllunio a darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd cyflwyno'r newid hwn hefyd yn cryfhau'r adran ddilynol ar 'Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill'. Byddai'n ategu'r ffaith na ddylai awdurdodau lleol fod yn cynllunio mewn ffordd sy'n creu gormodedd o gapasiti ychwanegol. Rydym yn ymwybodol o sawl achos lle mae awdurdodau lleol â thargedau twf uchelgeisiol o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg mewn ardal benodol, ond hefyd yn cynllunio ar gyfer tyfu capasiti'r sector cyfrwng Saesneg yn yr un ardal.

Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig – tudalen 20, paragraffau 1.38 a 1.39

Mae'r safonau llunio polisi yn gofyn am ystyried yr effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyffredinol, ac nid yw wedi ei gyfyngu i un sefyllfa neu gyd-destun. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu bod angen ystyried yr effaith addysgol a'r effaith gymunedol.

Yn gysylltiedig â'n sylwadau isod mewn perthynas ag Atodiad C, byddem yn awgrymu bod angen i'r Cod wneud cyswllt cliriach rhwng yr asesiad effaith ar y gymuned a'r asesiad effaith ar y Gymraeg. Hynny yw, fe ddylai'r asesiad effaith ar y Gymraeg ystyried effaith ehangach gymunedol y cynnig ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a/neu fe ddylai'r asesiad effaith ar y gymuned ystyried y Gymraeg. Yn aml mae ysgolion bach gwledig cyfrwng Cymraeg yn asedau cymunedol pwysig, a byddai cau'r ysgolion hyn yn debygol o gael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ehangach. Yn ymarferol, byddai ychwanegu brawddeg ym mharagraff 1.38 yn annog cynigwyr i ystyried y Gymraeg yn cryfhau'r Cod, a byddai modd ategu hyn yn Atodiad C (gweler sylwadau isod).

Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu gau dosbarthiadau meithrin – tudalen 21, paragraff 1.44

Nid yw'n glir beth yw'r rhesymeg dros ddileu'n gyfan gwbl y trydydd pwynt bwled yn y Cod presennol, sef '*lefel y galw am fathau penodol o addysg feithrin, e.e. addysg feithrin cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth â chymeriad crefyddol*'. Gallwn ddeall bod angen diwygio'r frawddeg hon gan bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg bellach wedi symud i ffwrdd o'r cysyniad o 'fesur y galw' tuag at gysyniad o ehangu darpariaeth yn rhagweithiol. Oni bai bod rheswm clir dros beidio gwneud, byddem yn eich annog i gynnwys cymal yma sydd yn cyfeirio at effaith y cynigion ar hwyluso mynediad at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn gyson â chymalau tebyg sydd wedi'u cynnwys wrth drafod y ffactorau y dylid eu hystyried yng nghyd-destun cynigion i newid iaith y ddarpariaeth, neu i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu ychwanegu neu ddileu chweched dosbarth.



Ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth wneud cynigion ar gyfer ad-drefnu darpariaeth Ddysgu Ychwanegol – tudalen 24, paragraff 1.52

Credwn y dylid cynnwys pwynt bwled ychwanegol yma sy'n gofyn i gynigwyr ystyried sut y bydd y cynigion yn cyd-fynd â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 o safbwynt yr egwyddor o greu system ADY dwyieithog, a'r ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i gyflwyno Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Atodiad C: Asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg a'r gymuned – tudalen 78

Croesawn y ffaith bod Atodiad C y Cod diwygiedig yn cynnig mwy o arweiniad ynglŷn â'r materion i'w hystyried wrth gynnal asesiad effaith ar y Gymraeg.

Nid yw'r ffaith bod deddfau eraill yn gofyn am asesiadau effaith ar y Gymraeg yn golygu bod cyrff wedi eu heithrio o'r ddyletswydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg mewn perthynas â llunio polisi. Yn yr un modd, nid yw'r ffaith bod y Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i asesu effaith cynigion ar y Gymraeg yn eithrio'r ddyletswydd i gydymffurfio â safonau llunio polisi o fewn Rheoliadau Rhif 1.

Er mwyn osgoi dyblygu ac i leihau'r baich o gydymffurfio â gofynion y Cod a'r safonau llunio polisi ochr yn ochr, byddai'n fuddiol pe bai Atodiad C yn tynnu sylw at yr angen i ystyried a dilyn canllawiau'r Comisiynydd wrth asesu effaith cynigion ar y Gymraeg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau. Fel y nodwyd uchod, mae gan y Comisiynydd [tudalen gwe benodol](#) sy'n cynnwys amryw o adnoddau sy'n cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol wrth gynnal asesiad effaith. Mae'r adnoddau yn cynnwys Cod Ymarfer, dogfen gyngor, enghreifftiau o arferion da a seminarau. Rydym hefyd yn y broses o lunio adnoddau a fydd yn cynnig arweiniad ymarferol ar sut i asesu effaith penderfyniadau polisi, sy'n ymwneud yn benodol ag addysg, ar y Gymraeg. Byddai cynnwys dolenni i'r tudalennau a'r adnoddau hyn yn hwyluso'r broses asesu effaith i'r cyrff.

Ym mis Tachwedd 2024 cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad ar drefniadau sefydliadau i gydymffurfio â gofynion y safonau llunio polisi, [Penderfyniadau Polisi a'r Gymraeg: Ymdrech gydwbybodol?](#). Gwnaed pump argymhelliad yn yr adroddiad, a'r cyntaf ohonynt yn nodi:

Argymhelliad 1: Mae angen mwy na thrafodaeth arwynebol a datganiadau ffeithiol am y Gymraeg o fewn asesiadau effaith. Dylai sefydliadau gynnwys digon o wybodaeth er mwyn dangos bod ymdrech gydwbybodol wedi ei wneud i ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg.

Mae Atodiad C yn cynnig rhestr o'r math o dystiolaeth y mae'n rhaid ei gynnwys fel rhan o'r asesiad effaith. Nodwn ei bod yn rhestr gynhwysfawr, ond mae rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â'r hyn a olygir gan "ddolenni" yma. Croesawn y ffaith bod gofyn i gyrff wneud y cyswllt rhwng y cynigion a strategaethau a pholisïau cysylltiedig, ond mae angen pwysleisio nad yw cynnwys datganiad ffeithiol arwynebol neu ddolen at ddogfennau a restrir yn unig yn ddigonol.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Lle bo corff yn cyfeirio at strategaethau neu bolisiâu penodol, dylent hefyd berthnasu eu cynigion â nodau, amcanion a thargedau'r strategaethau a'r polisiâu hynny, gan nodi pa effaith y bydd y cynnig yn ei gael ar eu cyflawni. Nid ydym o'r farn bod yr arweiniad yn Atodiad C ar gynnal asesiadau effaith ar y Gymraeg yn gwbl gyson â chyngor y Comisiynydd.

Byddai'n fuddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn ystyried y cyngor a'r arweiniad yn nogfen gyngor y Comisiynydd er mwyn sicrhau bod yr arweiniad a ddarperir yn y Cod hwn yn gyson ac yn cefnogi'r cyngor hwnnw. Er hwylustod, rydym wedi darparu crynodeb o gyngor y Comisiynydd ar ffurf atodiad i'r ymateb hwn.

Nodwn bod yr Atodiad yn gwahaniaethu rhwng asesiad effaith ar y Gymraeg ac asesiad effaith ar y gymuned. Gall penderfyniadau polisi sy'n ymwneud â darpariaeth addysg gael effeithiau cymhleth ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cymuned; ar benderfyniadau a wneir mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg; ac ar agweddau tuag at y Gymraeg yn lleol. Gall y rhain fod yn gymysgedd o effeithiau positif, andwyol a niwtral. Mae'n bwysig, felly, sicrhau bod yr asesiadau effaith ar y Gymraeg a'r gymuned yn cael eu hystyried ochr yn ochr, gan gydnabod bod sawl agwedd yn gorgyffwrdd.

Gobeithio y bydd y sylwadau uchod o gymorth i'r ymgynghoriad.

Yr eiddoch yn gywir,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg



Atodiad 1:

Cynnal asesiad effaith o benderfyniadau polisi yn ymwneud ag addysg a'r Gymraeg

Wrth gynnal asesiad effaith o benderfyniad polisi sy'n ymwneud ag addysg, dylid ystyried y canlynol:

- A yw'r ffactorau allweddol, o safbwynt ieithyddol, addysgol a chymunedol, wedi eu hadnabod a'u hystyried yn llawn?
- A fu digon o ddadansoddi a dehongli ar y ffactorau hynny? A ddefnyddiwyd y data perthnasol wrth ddehongli'r effeithiau tebygol?
- A oes proses benodol i'w dilyn wrth gasglu p'un a oedd gan y datblygiad effaith gadarnhaol, niwtral neu negyddol ar y Gymraeg?
- Pa gamau a fabwysiadwyd i sicrhau bod effeithiau'r polisi yn rhai cadarnhaol?
- Pa gamau neu opsiynau a ystyriwyd/mabwysiadwyd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?
- A fu ymgynghori digonol a phriodol gydag ystod pwrpasol o randdeiliaid a sut yr ymdriniwyd â chasgliadau'r ymgynghoriad?

Mae'n rhaid i sefydliadau wneud ymdrech gydwybodol i ystyried effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg. Mae'r trothwy ar gyfer 'ymdrech gydwybodol' yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac mae'n debygol y bydd y gofynion yn uwch mewn ardal sensitif neu arwyddocaol o ran y Gymraeg, ac wrth i nifer a maint yr effaith gynyddu.

Dylai pob asesiad ddod i gasgliad ynghylch y canlynol:

- Beth yw'r ffactorau perthnasol pwysicaf yn y cyd-destun ieithyddol sy'n allweddol i'r cynnig?
- Beth yw deilliannau mwyaf tebygol y datblygiad polisi hwn a sut y bydd y rhain yn cael eu monitro a'u mesur yn y dyfodol?

Dylai'r asesiad hefyd nodi sut y bydd y cynnig yn cael effaith ar:

- Nifer/canran y siaradwyr Cymraeg o fewn y system addysg.
- Nifer/canran y siaradwyr Cymraeg y tu allan i'r system addysg.
- Argaeledd a hygyrchedd addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.
- Cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg neu addysg gyfartal yn y ddwy iaith.
- Y defnydd o'r Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gan ddisgyblion a gan y gymuned ehangach.
- Sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol cyfnod addysg statudol ac ar ôl 16 oed.
- Y ddarpariaeth ar gyfer hwyrdyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg.
- Y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol gan y sefydliad.



Dyma rai enghreifftiau o'r materion y dylid eu hystyried wrth asesu effaith cynnig ar y Gymraeg. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr, a gellir ystyried y ffactorau dim ond i'r graddau y maent yn berthnasol i'r cynnig dan sylw. Bydd y ffactorau perthnasol yn amrywio fesul achos.

- Nifer y siaradwyr Cymraeg:
 - yn gyffredinol
 - mewn un ardal ddaearyddol
 - mewn carfan benodol (e.e. plant, pobl ifanc, oedolion)
 - mewn sector neu grŵp penodol (e.e. aelodau o glybiau neu gymdeithasau)

- Trosglwyddo'r Gymraeg:
 - yn y cartref rhwng rhiant/gofalwr a phlentyn
 - mewn addysg wrth i ddisgybl symud o un cyfnod addysg i un arall (e.e. wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd)

- Y Gymraeg yn y gweithle:
 - cyfleoedd anffurfiol a chymdeithasol
 - cyfathrebu mewnol
 - strwythur timoedd/adrannau
 - technoleg ac adnoddau (e.e. meddalwedd prawf ddarllen, rhyngwyneb dyfeisiadau)
 - ymwybyddiaeth iaith ymysg staff

- Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg:
 - ymysg plant, pobl ifanc ac oedolion
 - yn y gweithle
 - y tu allan i'r gwaith
 - digwyddiadau a gweithgareddau a drefnwyd (e.e. digwyddiad cymunedol, dosbarth hamdden, cyfarfod crefyddol)
 - cyfryngau digidol

- Cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg:
 - gofal plant
 - addysg statudol
 - addysg cyn- ac ôl-statudol
 - gwersi Cymraeg i oedolion
 - mynediad at feddalwedd/cyrsiau ar-lein

- Cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg:
 - addysg feithrin
 - addysg statudol
 - addysg bellach ac uwch
 - dysgu'n seiliedig ar waith
 - cludiant i leoliadau addysg



- hwylustod mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg
- Cynllunio ieithyddol:
 - cynaliadwyedd mewn ardaloedd lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg
 - hyrwyddo caffael a defnydd iaith
 - ffyniant y Gymraeg fel iaith teulu, cymuned neu'r gweithle
 - tegwch cymdeithasol
- Ymdrechion i warchod a hyrwyddo'r Gymraeg:
 - gweithgareddau Mentrau Iaith
 - gweithgareddau mentrau cymunedol
 - ymgyrchoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg
 - gofynion ieithyddol statudol
 - grantiau

Yng nghyd-destun gofynion ymgynghori ar y cynigion, dylid amlygu bod dau ofyniad o fewn y safonau llunio polisi sy'n ymwneud â dogfen ymgynghori, sef:

- a) ystyried yr effaith ar y Gymraeg
- b) ceisio barn ar yr effaith ar y Gymraeg.

Mae angen i ddogfen ymgynghori wneud mwy na dim ond ceisio barn. Ni ddylid rhoi'r baich ar y rhanddeiliaid i adnabod ac ystyried yr effeithiau posib. O ganlyniad, rhaid i'r ddogfen ymgynghori nodi, amlinellu ac ystyried yr effeithiau posib ar y Gymraeg ar gyfer y cynnig dan sylw a cheisio barn ar yr effeithiau hynny drwy gyfres o gwestiynau penodol sy'n gofyn am ymateb iddynt.

Mae'n bwysig bod cyrff yn sicrhau bod ganddynt ddulliau effeithiol o gynnwys barn, profiad neu arbenigedd amrediad o randdeiliaid perthnasol. Dyma restr o'r math o randdeiliaid y gallai cyrff ystyried ymgynghori â nhw:

- | | |
|-------------------------------------|--|
| ○ Llywodraethwyr sefydliadau addysg | ○ RhAG |
| ○ Cynghorwyr sirol a lleol | ○ Mudiadau iaith |
| ○ Cynghorau cymuned a thref | ○ Capeli/eglwysi |
| ○ Ysgolion a phenaethiaid | ○ Sector gwirfoddol y cymunedau perthnasol |
| ○ Disgyblion | ○ Cyfranddalwyr |
| ○ Rhieni | ○ Rhanddeiliaid eraill |
| ○ Undebau llafur | |
| ○ Estyn | |



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Mae disgwyl i gorff roi sylw dyledus i unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod y broses ymgynghori wrth ddod i gasgliad ynglŷn â'r effeithiau ar y Gymraeg a hefyd wrth wneud y penderfyniad terfynol.

Am arweiniad cyffredinol ar asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, dylid cyfeirio at ddogfen gyngor y Comisiynydd, [*Safonau Lluo Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*](#)